**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cyfarwyddeb fframwaith y strategaeth forol yng Nghymru
Medi 2012

Mae cyfarwyddeb fframwaith y strategaeth forol yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth gyflawni statws amgylcheddol da yn eu dyfroedd morol erbyn 2020.  Mae'r Gyfarwyddeb yn amlinellu fframwaith o gamau y mae'n rhaid i Aelod-wladwriaethau eu cymryd er mwyn gweithio tuag at hyn.

Mae'r papur hwn yn archwilio gofynion y Gyfarwyddeb, ynghyd â sut y maent yn ymwneud â rhwymedigaethau statudol eraill, gan gynnwys Confensiynau Rhyngwladol a Chyfarwyddebau Ewropeaidd.  Rhoddir amlinelliad o'r cynnydd presennol o ran rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith yng Nghymru, yngyd â chamau sydd angen eu cymryd yn y dyfodol.  Trafodir y cyfrifoldebau gwahanol ar gyfer rheoli morol ledled y DU, ynghyd â chymhariaeth o ddulliau gweithredu a chynnydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
**www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/1607

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cyfarwyddeb fframwaith y strategaeth forol yng Nghymru

Medi 2012

Alexandra Collins

Rhif dogfen: 12/1607

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod ynddiolchgar y Gymrodoriaeth Seneddol aroddwyd i Ms Collins gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a alluogodd i'r papur hwn gael ei gwblhau.

Gwasanaeth Ymchwil

## Crynodeb


Cafodd *Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol* ei mabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd yn 2008. Mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth gyflawni statws amgylcheddol da yn ei holl ddyfroedd morol erbyn 2020. Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi fframwaith o gamau y mae'n rhaid i Aelod-wladwriaethau eu cymryd. Mae'r rhain yn cynnwys asesu statws yr amgylchedd morol a'r pwysau sy'n effeithio arno. Rhaid i Aelod-wladwriaethau hefyd weithredu camau, a elwir yn fesurau, a gynlluniwyd i gyflawni neu gynnal statws amgylcheddol da. Mae'r camau hyn yn cynnwys dynodi ardaloedd morol gwarchodedig. Mae gofynion y Gyfarwyddeb yn ategu nifer o gonfensiynau rhyngwladol a Chyfarwyddebau Ewropeaidd.

Troswyd y Gyfarwyddeb i gyfraith y DU drwy *Reoliadau Strategaeth Forol 2010*. Mae *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* hefyd yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig weithredu nifer o agweddau ar y Gyfarwyddeb. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn nodi cyfrifoldebau'r gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU. Mae gan Weinidogion Cymru rwymedigaeth o ran cynllunio morol yn nyfroedd Cymru ar y glannau ac ar y môr ac o ran cadwraeth yn rhanbarth y glannau.

Lluniwyd datganiad polisi morol ar y cyd gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ym mis Mawrth 2011. Mae'r datganiad yn nodi gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfroedd morol a dull gweithredu ar y cyd ar gyfer llunio cynlluniau morol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei dull o weithredu'r broses cynllunio morol.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ymgynghori ar asesiadau statws amgylcheddol cychwynnol sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb, ynghyd â chynigion ar gyfer nodweddion a thargedau a fydd yn disgrifio ac yn mesur cynnydd tuag at statws amgylcheddol da. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar ddynodi ardaloedd gwarchodedig morol. Yn y pen draw, bydd tair i bedair o ardaloedd gwarchodedig iawn yn cael eu dynodi. Y bwriad yw y bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n caniatáu iddynt weithredu mor naturiol â phosibl. Felly, bydd echdynnu neu ddyddodi adnoddau a gweithgareddau niweidiol eraill yn cael eu gwahardd. Bydd y safleoedd gwarchodedig iawn hyn yn cael eu dewis ar sail eu cyfraniad at wydnwch ac adfer ecosystemau a'u gallu i ddarparu gwasanaethau ecosystemau.

Mae penderfyniad hefyd yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn Lloegr ac yn yr Alban ar ddynodi safleoedd gwarchodedig. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban yn bwriadu dynodi mwy o ardaloedd gwarchodedig nag yng Nghymru. Bydd y rhan fwyaf o'r safleoedd yn Lloegr yn cael eu rheoli er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu â

phosibl ar weithgareddau defnyddwyr. Yn yr Alban, bydd rhagdybiaeth o ran defnydd.  Hyd yn hyn, nid yw Gogledd Iwerddon wedi pasio Mesur Morol, felly mae'n debygol y bydd yn methu targed y Gyfarwyddeb, sef dynodi safleoedd gwarchodedig erbyn 2013.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ..... 7

**2. Gofynion Aelod-wladwriaethau o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol** ..... 7

2.1. Cyflawni statws amgylcheddol da erbyn 2020 ..... 7
2.2. Asesu statws amgylcheddol ..... 8
2.3. Monitro statws amgylcheddol da ..... 8
2.4. Cynlluniau strategaeth forol a mesurau diogelu gofodol ..... 9

**3. Cysylltiadau â gofynion a pholisïau statudol eraill** ..... 9

3.1. Confensiynau rhyngwladol ..... 9
3.2. Cyfarwyddebau'r UE ..... 11
3.3. Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ..... 15

**4. Cynnydd o ran gweithredu yng Nghymru hyd yma** ..... 16

4.1. Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ..... 16
4.2. Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010 ..... 17
4.3. Datganiad Polisi Morol ..... 17
4.4. Asesiad cychwynnol o statws amgylcheddol a chynigion ar gyfer statws amgylcheddol da ..... 18
4.5. Ymgynghoriad ar barthau cadwraeth morol ..... 19

**5. Gofynion yn y dyfodol** ..... 20

5.1. Dynodi parthau cadwraeth morol ..... 20
5.2. Rhaglenni monitro ..... 21
5.3. Datblygu cynlluniau i gyflawni statws amgylcheddol da ..... 21

**6. Cynnydd o ran gweithredu - cymariaethau â gweddill y DU** ..... 22

6.1. Lloegr a rhanbarth alltraeth Cymru a Gogledd Iwerddon ..... 24
6.2. Gogledd Iwerddon ..... 25
6.3. Yr Alban ..... 26

# Cyfarwyddeb fframwaith y strategaeth forol yng Nghymru

## 1. Cyflwyniad

Cafodd *Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol* ei mabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd yn 2008. Cafodd y Gyfarwyddeb ei mabwysiadu mewn ymateb i bryderon bod y galw am wasanaethau ecolegol morol yn uchel a bod angen lleihau'r pwysau os yw'r amgylchedd morol yn mynd i gael ei warchod. [1]

Bwriad y Gyfarwyddeb yw gwarchod amgylchedd holl ddyfroedd morol Ewrop yn fwy effeithlon, sy'n golygu bod cymryd camau gweithredu cydgysylltiedig, cyson ac integredig yn ofynnol. Mae'n hyrwyddo dull o reoli gweithgareddau dynol sydd wedi'i seilio ar ecosystemau a'r defnydd cynaliadwy o nwyddau a gwasanaethau morol.

Mae'r Gyfarwyddeb yn sefydlu fframwaith o gamau y mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau eu cymryd er mwyn diogelu a gwarchod yr amgylchedd morol a, lle bo'n bosibl, adfer ardaloedd yr effeithiwyd arnynt mewn modd andwyol yn y gorffennol.

Mae'r Gyfarwyddeb yn sefydlu Rhanbarthau Morol Ewropeaidd ar sail meini prawf daearyddol ac amgylcheddol. Mae pedwar rhanbarth morol yn Ewrop, sef; y môr Baltig, Gogledd-ddwyrain cefnfor Iwerydd, môr y Canoldir a'r môr Du. Rhennir y rhanbarthau hyn ymhellach yn is-ranbarthau. Mae dyfroedd morol y DU yng ngogledd-ddwyrain cefnfor Iwerydd ac o fewn is-ranbarthau môr y Gogledd fwyaf a'r môr Celtaidd. Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau gydweithredu er mwyn cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb o fewn rhanbarthau ac is-ranbarthau dyfroedd Ewropeaidd. [2]

## 2. Gofynion Aelod-wladwriaethau o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol

### *2.1. Cyflawni statws amgylcheddol da erbyn 2020*

O dan y Gyfarwyddeb, rhaid i bob Aelod-wladwriaeth sicrhau bod ei dyfroedd morol yn cyflawni, neu'n cynnal, statws amgylcheddol da erbyn 2020.[3] O dan Erthygl 3 o'r Gyfarwyddeb, diffinnir statws amgylcheddol da ar gyfer dyfroedd morol fel a ganlyn:

> 'ecologically diverse and dynamic oceans and seas which are clean, healthy and productive within their intrinsic conditions, and the use of the marine environment is at a level that is sustainable, thus safeguarding the potential for uses and activities by current and future generations.'

---

[1] **OJL 164, 25.06.2008** [fel ar 27 Ebrill 2012]
[2] *ibid*
[3] *ibid*

Caniateir eithriadau i gyflawni statws amgylcheddol da. Mae'r rhain yn cynnwys lle mae diraddio wedi digwydd o ganlyniad i weithredoedd neu ddiffyg gweithredu nad yw'r Aelod-wladwriaeth yn gyfrifol amdanynt, achosion naturiol, neu lle mae addasiadau neu newidiadau am resymau yn ymwneud â budd cyhoeddus tra phwysig.

## *2.2. Asesu statws amgylcheddol*

Er mwyn gweithio tuag at gyflawni statws amgylcheddol da, rhaid i Aelod-wladwriaethau ddarparu dadansoddiad o nodweddion hanfodol y dyfroedd yn y rhanbarth morol, ynghyd ag asesiadau o statws amgylcheddol cyfredol y dyfroedd. Caiff asesiadau o statws amgylcheddol eu seilio ar restrau o elfennau a nodir yn Atodiad III o'r Gyfarwyddeb. *Mae Penderfyniad y Comisiwn ar 1 Medi 2010* yn egluro'r elfennau ymhellach, gan amlinellu 11 o ddisgrifyddion o statws amgylcheddol; mae'r rhain yn cynnwys bioamrywiaeth, poblogaethau o bysgod sydd wedi'u hecsploitio'n fasnachol, crynodiadau o halogyddion a sbwriel môr.[4]

Ar gyfer pob disgrifydd, rhaid i Aelod-wladwriaethau lunio set o nodweddion ansoddol sy'n rhoi disgrifiad o'r hyn y mae statws amgylcheddol da yn ei olygu ym mhob Aelod-wladwriaeth. Ar ben hynny, rhaid nodi targedau ar gyfer pob un o'r nodweddion hyn er mwyn arwain y cynnydd tuag at statws amgylcheddol da.

Yn ychwanegol at yr asesiad o statws amgylcheddol, rhaid i Aelod-wladwriaethau wneud asesiad o'r pwysau a'r effeithiau ar yr amgylchedd morol, yn ogystal â dadansoddiad economaidd a chymdeithasol o'r defnydd o'r dyfroedd, gan gynnwys costau diraddio.

Rhaid i Aelod-wladwriaethau sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn cael cyfle i gymryd rhan yn y Gyfarwyddeb. **Rhaid i'r asesiadau cychwynnol, y penderfyniad am nodweddion statws da a'r targedau amgylcheddol fod ar gael i'r cyhoedd i roi sylwadau arnynt, ac wedi'u cwblhau, erbyn 15 Gorffennaf 2012.**

## *2.3. Monitro statws amgylcheddol da*

Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi bod gwybodaeth gadarn am gyflwr yr amgylchedd morol yn hanfodol er mwyn rheoli dyfroedd morol yn effeithiol. Oherwydd hyn, mae'r Gyfarwyddeb yn galw am asesu'r statws amgylcheddol yn barhaus. Rhaid i Aelod-wladwriaethau weithredu rhaglen fonitro gydgysylltiedig ar gyfer pob nodwedd a tharged yn eu dyfroedd morol. Lle bo modd, dylai'r rhaglenni hyn adeiladu ar y gofynion monitro a bennir gan ddeddfwriaeth arall yn y Gymuned Ewropeaidd. Dylai rhaglenni monitro hefyd fod yn gymaradwy o fewn rhanbarthau ac is-ranbarthau morol. Mae hyn, felly, yn gofyn am gydgysylltu

---

[4] **OJL 232, 02.09.2010** [fel ar 27 Ebrill 2012]

rhwng Aelod-wladwriaethau i sicrhau cysondeb. Rhaid i gynllun rhaglenni monitro fod yn seiliedig ar asesiadau cychwynnol yr Aelod-wladwriaeth o nodweddion yr amgylchedd a'r pwysau arno. **Mae angen sicrhau bod cynlluniau ar gyfer rhaglenni monitro ar gael i bawb sydd â diddordeb i roi sylwadau arnynt, a'u bod yn weithredol, erbyn 15 Gorffennaf 2014.**

### *2.4. Cynlluniau strategaeth forol a mesurau diogelu gofodol*

Rhaid i Aelod-wladwriaethau weithredu rhestr o gamau, a elwir yn fesurau, a gynlluniwyd i gyflawni neu gynnal statws amgylcheddol da. Ynghyd ag asesiadau o statws amgylcheddol a phwysau, rhaid crynhoi'r rhain mewn cynllun strategaeth forol ar gyfer pob rhanbarth morol.

Dylid llunio camau ar sail y dadansoddiad o nodweddion hanfodol a'r asesiad o statws amgylcheddol. Dylai'r camau hefyd ystyried gofynion Cyfarwyddebau Ewropeaidd eraill ac egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae hyn, felly, yn gofyn bod goblygiadau economaidd a chymdeithasol mesurau yn cael eu hystyried a bod asesiadau effaith a chost a budd yn cael eu cynnal.

Mae hefyd yn ofynnol i'r rhestr o gamau gweithredu yn y cynlluniau strategol morol gynnwys mesurau diogelu gofodol a fydd yn cyfrannu at rwydwaith cydlynol a chynrychiadol o ardaloedd morol gwarchodedig. Dylai'r rhwydweithiau gynnwys ardaloedd sy'n sicrhau bod amrywiaeth cynefinoedd mewn rhanbarth morol yn cael eu cwmpasu, ynghyd ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, y Gyfarwyddeb Adar a chytundebau rhyngwladol neu ranbarthol. **Dylai rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig gael ei nodi yn gyhoeddus erbyn 2013**.

Rhaid i Aelod-wladwriaethau sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn cael cyfle i gymryd rhan yn y Gyfarwyddeb. Felly, rhaid i'r camau a'r cynlluniau strategaeth forol fod ar gael i'r cyhoedd roi sylwadau arnynt. **Mae angen i'r camau i sicrhau statws amgylcheddol da gael eu llunio erbyn 2015 a dylent fod yn weithredol erbyn 2016 fan bellaf.**

## 3. Cysylltiadau â gofynion a pholisïau statudol eraill

Mae'r Gyfarwyddeb yn ategu nifer o ofynion statudol eraill, gan gynnwys confensiynau rhyngwladol a Chyfarwyddebau Ewropeaidd. Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi y dylai'r rhwymedigaethau o dan y gofynion hyn gael eu hystyried yn llawn os yw'r Gyfarwyddeb yn mynd i gael ei gweithredu'n llwyddiannus.

### *3.1. Confensiynau rhyngwladol*

### *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr*

Mae pob Aelod-wladwriaeth yn rhan o *Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr*. Felly, rhaid i rwymedigaethau o dan y Confensiwn gael eu

hystyried yn llawn gan y Gyfarwyddeb a'r broses o'i gweithredu.[5] Mae'r confensiwn yn cynnwys rhwymedigaethau i sicrhau nad yw gweithgareddau o dan awdurdodaeth un wlad yn achosi niwed y tu hwnt i'w dyfroedd. Rhaid i Aelod-wladwriaethau hefyd osgoi trosglwyddo niwed neu beryglon o un ardal i'r llall ac osgoi trawsnewid un math o lygredd yn un arall.[6]

### *Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol*

Dylai'r Gyfarwyddeb gefnogi'r *Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol*, y mae pob Aelod-wladwriaeth yn rhan ohono. [7] Mae'r Confensiwn hwn yn mynnu bod gwledydd yn atal colli bioamrywiaeth[8] Yn benodol, mabwysiadodd Seithfed Gynhadledd y Partïon i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol raglen waith ar gyfer bioamrywiaeth forol ac arfordirol. Mae hyn yn mynnu bod gwledydd yn rhoi stop ar golli amrywiaeth morol a sicrhau gallu'r ecosystemau morol i gefnogi darparu nwyddau a gwasanaethau. Yn ogystal, mae'n ofynnol i wledydd sefydlu a chynnal ardaloedd morol gwarchodedig sy'n gynrychioliadol o ran ecoleg erbyn 2012,[9] a fydd yn cael eu darparu os yw'r mesurau amddiffyn gofodol sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb yn cael eu dynodi.

### *Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd*

O dan *Gonfensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd*, a fabwysiadwyd ym 1971, mae'n ofynnol i wledydd nodi a chynnal cymeriad ecolegol eu gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol.[10] Oherwydd hyn, bydd y safleoedd a nodwyd yn cyfrannu at y rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb. Yng Nghymru mae saith o safleoedd Ramsar, y mae tri ohonynt yn rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr.[11] Fodd bynnag, dim ond pedwar o'r rhain sy'n safleoedd arfordirol, sef Cors Fochno a Dyfi, Cilfach Porth Tywyn, Aber Dyfrdwy ac Aber Hafren.[12]

### *Y Confensiwn er Diogelu Amgylchedd Morol Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd*

Dylai'r Gyfarwyddeb hefyd gyfrannu at gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol Aelod-wladwriaethau o ran amddiffyn yr amgylchedd morol rhag llygredd. O ran y DU, mae hyn yn ymwneud â'r Confensiwn er Diogelu Amgylchedd Morol Gogledd-

---

[5] OJL 164, 25.06.2008 [fel ar 27 Ebrill 2012]
[6] *ibid*
[7] *ibid*
[8] Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (1994) *First Ordinary Meeting of the Conference of the Parties to the Convention on Biological Diversity (COP 1),* [fel ar 2 Mai 2012]
[9] Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol *COP 7 Decision VII/5 Marine and Coastal Biodiversity,* 2004 [fel ar 2 Mai 2012]
[10] *Convention on Wetlands of International Importance especially as Waterfowl Habitat. Ramsar (Iran) (1971). UN Treaty Series No. 14583. As amended by the Paris Protocol, 3 December 1982, and Regina Amendments, 28 May 1987,* [fel ar 2 Mai 2012]
[11] Cyngor Cefn Gwlad Cymru *Safleoedd Ramsar,* 2012 [fel ar 2 Mai 2012]; Papur y Gwasanaeth Ymchwil 06/1194/ *Ardaloedd Diogelu'r Amgylchedd yng Nghymru*, (Saesneg yn unig) Medi 2006 [fel ar 9 Mai 2012]
[12] Cyngor Cefn Gwlad Cymru *Map o safleoedd a thirweddau gwarchodedig,* 2012 [fel ar 2 Mai 2012]

ddwyrain yr Iwerydd, a elwir yn fwy cyffredin yn Gonfensiwn OSPAR, a gymeradwywyd gan Benderfyniad y Cyngor 98/249/EC.[13] O dan y confensiwn, mae'n ofynnol bod pymtheg Llywodraeth arfordiroedd a dalgylchoedd gorllewinol Ewrop, ynghyd â'r Gymuned Ewropeaidd, yn cydweithredu er mwyn gwarchod amgylchedd morol gogledd-ddwyrain yr Iwerydd. Mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddefnyddio sefydliadau rhanbarthol presennol ar gyfer cydgysylltu a gweithredu'r Gyfarwyddeb. Felly, bydd confensiwn OSPAR yn bwysig ar gyfer sefydlu a gweithredu strategaethau morol.[14]

O dan Argymhelliad OSPAR 2003/3, cytunodd y gwledydd sy'n rhan o Gonfensiwn OSPAR i sefydlu rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig a reolir yn dda sy'n gydlynol o ran ecoleg yng ngogledd-ddwyrain y Iwerydd. [15] Bydd sefydlu mesurau diogelu gofodol o dan y Gyfarwyddeb yn helpu i gyflawni'r rhwymedigaeth hon.

## *3.2. Cyfarwyddebau'r UE*

### *Cyfarwyddeb Cynefinoedd*

Yn ogystal â chonfensiynau rhyngwladol, mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn ategu nifer o Gyfarwyddebau eraill yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar Gadwraeth Cynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora Gwyllt, sydd yn fwy adnabyddus fel y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.[16] Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gymryd camau i gynnal neu adfer y cynefinoedd naturiol a rhywogaethau a amlinellir yn yr atodiadau i'r Gyfarwyddeb i statws cadwraeth ffafriol. I wneud hynny, rhaid i Aelod-wladwriaethau nodi ardaloedd cadwraeth arbennig ar gyfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau a restrir.

Mae gan naw o'r ardaloedd cadwraeth arbennig elfen forol yng Nghymru, ac mae dau ohonynt yn rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr[17]. Mae'r rhain yn gwarchod cynefinoedd fel banciau tywod, riffiau a rhywogaethau fel dolffiniaid trwynbwl a morloi.[18]

### *Cyfarwyddeb Adar*

Mae Cyfarwyddeb 2009/147/EC ar gadwraeth adar gwyllt, a elwir yn gyffredin yn Gyfarwyddeb Adar[19], yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu ardaloedd gwarchodaeth arbennig er mwyn diogelu rhywogaethau adar prin a bregus a gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol. Yn y DU mae 107 o ardaloedd gwarchodaeth arbennig

---

[13] ***Convention for the Protection of the Marine Environment of the North East Atlantic,*** [fel ar 2 Mai 2012]
[14] **OJL 164, 25.06.2008,**[fel ar 27 Ebrill 2012]
[15] Comisiwn OSPAR ***OSPAR Network of Marine Protected Areas***, 2012 [fel ar 31 Mai 2012]
[16] **OJL 206, 22.07.92** [fel ar 2 Mai 2012]
[17] Joint Nature Conservation Committee, ***Marine Protected Sites Spreadsheets,*** 2012 [fel ar 15 Mehefin 2012]
[18] Joint Nature Conservation Committee, ***Different types of marine protected areas,*** 2012 [fel ar 2 Mai 2012]
[19] ***OJL 206, 26*** [fel ar 2 Mai 2012]


sydd ag elfen forol[20], a ddefnyddir gan 110 o rywogaethau o adar[21]. Yng Nghymru, mae gan saith o ardaloedd gwarchodaeth arbennig elfen forol.[22] Dim ond tair ardal warchodaeth arbennig yn y DU sy'n cynnwys dyfroedd morol yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys Bae Caerfyrddin, sy'n cael ei ddiogelu oherwydd ei boblogaeth o fôr-hwyaid du nad ydynt yn bridio, a Bae Lerpwl,[23] a ddynodwyd oherwydd ei boblogaeth o fôr-hwyaid du a throchwyr gyddfgoch nad ydynt yn bridio[24].

Gyda'i gilydd, mae ardaloedd gwarchodaeth arbennig ac ardaloedd cadwraeth arbennig yn gwneud y rhwydwaith Natura 2000 Ewropeaidd yng Nghymru, sef ymateb yr EU i Gonfensiwn yr EU ar Amrywiaeth Fiolegol.

---

[20] Joint Nature Conservation Committee, ***Marine Protected Areas in the UK,*** 2012 [fel ar 2 Mai 2012]
[21] Joint Nature Conservation Committee, ***Designated Marine SPAs,*** 2012 [fel ar 2 Mai 2012]
[22] Joint Nature Conservation Committee, ***Marine Protected Sites Spreadsheets,*** 2012 [fel ar 15 Mehefin 2012]
[23] Joint Nature Conservation Committee, ***UK Marine SPAs,*** 2012 [fel ar 2 Mai 2012]
[24] *ibid*

**Map 1: Lleoliad safleoedd gwarchodedig sydd ag elfen forol yng Nghymru**




Ffynhonnell y data: JNCC[25]

[25] Joint Nature Conservation Committee, **Download GIS data**, 2012 [fel ar 13 Mehefin 2012]

## *Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr*

Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol hefyd yn ategu Cyfarwyddeb 2000/60/EC *ar sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu cymunedol ym maes polisi dŵr*, a elwir yn fwy cyffredin yn Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. [26] Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyflwyno fframwaith ar gyfer diogelu pob corff dŵr o fewn yr Undeb Ewropeaidd, gan hyrwyddo dull mwy cynaliadwy ac integredig o reoli dŵr. Mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau atal statws cyrff dŵr rhag dirywio ac adfer rhai nad ydynt ar statws da ar hyn o bryd.

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn berthnasol i bob corff dŵr gan gynnwys dyfroedd trosiannol (aberoedd) a dyfroedd arfordirol hyd at un filltir forol allan i'r môr. Felly, bydd gorgyffwrdd â Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol[27], a bydd yn ofynnol i ddadansoddiad o bwysau a rhaglen o fesurau ar gyfer dyfroedd arfordirol gael eu hintegreiddio i mewn i strategaethau morol. [28] Yn ogystal, mae gan y ddwy Gyfarwyddeb amcanion tebyg, gan fod y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn canolbwyntio ar gyflawni statws cemegol ac ecolegol da a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn anelu at gyflawni statws amgylcheddol da. Oherwydd y tebygrwydd hwn, mae Llywodraeth y DU yn rhagweld y bydd mesurau a gyflwynwyd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr hefyd yn ddigonol i fodloni rhai o amcanion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ar gyfer y meini prawf hyn. [29]

## *Y Gyfarwyddeb Pysgod Cregyn*

Mabwysiadwyd y Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn (2006/113/EC) i warchod cynefinoedd molysgiaid deufalf a gastropod, gan gynnwys wystrys, cregyn gleision, cocos a chregyn bylchog. [30] Mae'n gosod safonau ar gyfer ansawdd dŵr mewn aberoedd ac ardaloedd arfordirol lle mae pysgod cregyn yn tyfu ac yn atgenhedlu. Yng Nghymru, mae 26 o ddyfroedd pysgod cregyn dynodedig. Fodd bynnag, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar adolygiad o ddynodi dyfroedd pysgod cregyn rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Mawrth 2012. [31] Nid yw canlyniadau'r ymgynghoriad wedi cael eu cyhoeddi hyd yn hyn.

## *Y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi*

*Mae Cyfarwyddeb y Cyngor 76/160/EEC yn ymwneud ag ansawdd dŵr ymdrochi*[32], a elwir yn fwy cyffredin yn Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi, yn gosod safonau

---

[26] **OJL 327, 22.12.2000** [fel ar 2 Mai 2012]
[27] Defra, ***Links between the Marine Strategy Framework and Water Framework Directives,*** 2012 [fel ar 2 Mai 2012]
[28] ***OJL 164, 25.06.2008*** [fel ar 27 Ebrill 2012]
[29] Defra, ***Links between the Marine Strategy Framework and Water Framework Directives,*** 2012 *[fel ar 2 Mai 2012]*
[30] Llywodraeth Cymru, ***Arolwg o'r Dyfroedd Pysgod Cregyn sydd wedi'u Dynodi yng Nghymru,*** 2012 [fel ar 17 Mai 2012]
[31] *ibid*
[32] ***OJ L 031, 05.02.1976*** [fel ar 27 Ebrill 2012]

ffisegol, cemegol a microbiolegol ar gyfer dyfroedd ymdrochi yn yr UE[33]. Cyflwynwyd y *Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi Diwygiedig (2006/7/EC)* i sicrhau cysondeb â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac i ymgorffori datblygiadau gwyddonol. Bydd y Gyfarwyddeb Ddiwygiedig yn pennu safonau newydd ar gyfer dyfroedd ymdrochi o 2015 ymlaen[34]. Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau integreiddio'r mesurau sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi gyda'r rhai sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol[35]. Yng Nghymru, mae'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi yn cynnwys 99 o draethau[36]. Felly, bydd gweithredu'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi yn helpu i gyflawni amcanion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

### *Y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol*

Amcan y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol (91/271/EEC) yw gwarchod yr amgylchedd rhag effeithiau andwyol dŵr gwastraff trefol heb ei drin.[37] Mae'n gosod y safonau casglu a thrin ar gyfer gwahanol feintiau o grynodrefi.

Mewn dyfroedd arfordirol, rhagwelir y bydd camau a gymerir o dan y Gyfarwyddeb Trin Gwastraff Dŵr Trefol yn ddigonol i gyflawni Statws Amgylcheddol Da mewn perthynas â phwysau fel halogyddion ac ewtroffigedd.[38]

## *3.3. Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin*

Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) yw'r prif ddull cyfreithiol sy'n rheoli stociau pysgod yn yr UE, gan gynnwys gwarchod, rheoli ac ecsploetio adnoddau morol, a phrosesu a marchnata pysgod a chynhyrchion dyframaethu.[39] Felly, bydd y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn bwysig yn y broses o weithredu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, ac yn enwedig ar gyfer y disgrifydd ynghylch poblogaethau o bysgod sy'n cael eu hecsbloetio'n fasnachol a'r amcan bod poblogaethau o rywogaethau pysgod masnachol sy'n ddiogel o ran bioleg yn cael eu sefydlu.[40] Mae disgrifwyr eraill y Gyfarwyddeb y mae'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn ymwneud â hwy yn cynnwys bioamrywiaeth, gweoedd bwyd ac uniondeb y llawr môr.[41]

Yn achos llawer o rywogaethau, gan gynnwys rhywogaethau pysgod cregyn, nid oes cyfyngiadau ecsploetio y cytunwyd arnynt oherwydd diffyg gwybodaeth am

---

[33] Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil, ***Ansawdd Dŵr yng Nghymru,*** 2011, [fel ar 17 Mai 2012]
[34] *ibid*
[35] ***OJL 164, 25.06.2008*** [fel ar 27 Ebrill 2012]
[36] Llywodraeth Cymru, ***Dynodi Dyfroedd Ymdrochi Newydd,*** 2012 [fel ar 16 May 2012]; Llywodraeth Cymru, ***Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru: Adolygiad o Ddynodiadau Dyfroedd Ymdrochi 2012,*** (Saesneg yn unig) 2012 [fel ar 17 Mai 2012]
[37] Defra, ***Sewage treatment,*** 2011 [fel ar 17 Mai 2012]
[38] Llywodraeth EM, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad ynghylch Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol: Asesiad Cychwynnol ac argymhellion y DU ar gyfer Statws Amgylcheddol Da,*** (Saesneg yn unig) 27 Ebrill 2012 [fel ar 8 Mai 2012]
[39] Europa, ***Conservation and Exploitation of Marine Resources,*** 2010 [fel ar 2 Mai 2012]
[40] Defra, ***What the Marine Strategy Framework Directive Means for the Fishing Industry,*** 2012 [fel ar 2 Mai 2012]
[41] *ibid*

lefelau stoc. O ganlyniad, nid yw'r rhywogaethau hyn yn cael eu cynnwys yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredinol a bydd angen datblygu mesurau ychwanegol er mwyn bodloni amcanion perthnasol y Gyfarwyddeb. [42]

## 4. Cynnydd o ran gweithredu yng Nghymru hyd yma

### *4.1. Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*

*Daeth Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*, a elwir yn fwy cyffredin yn *Ddeddf y Môr*, i rym yn y DU ar 15 Gorffennaf 2010.[43] Mae'r Ddeddf yn ystyried yr amgylchedd morol yn ei gyfanrwydd ac yn nodi sut y bydd gweledigaeth y DU o foroedd a chefnforoedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol yn cael ei chyflawni. [44] Felly, mae rhai agweddau ar *Ddeddf y Môr* yn cynnwys gofynion o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

*Mae Deddf y Môr* yn cynnwys diwygiad i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* sy'n creu Parth Pysgodfeydd Cymru. O fewn Parth Pysgodfeydd Cymru, mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am bysgota, pysgodfeydd ac iechyd pysgod. Mae hyn yn ymestyn yr ardal y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am bysgodfeydd o'r ffin diriogaethol, sef 12 milltir forol o'r tir, hyd at derfyn pysgodfeydd Prydain, sef 200 milltir forol, neu'r llinell ganol rhwng gwledydd. [45]

*Mae Deddf y Môr* yn ymwneud â rheoli morol, ac yn ei gwneud yn ofynnol i lunio datganiadau polisi morol sy'n amlinellu'r egwyddorion sydd i'w mabwysiadu er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy, a chynlluniau morol a fydd yn nodi sut y bydd y datganiadau polisi morol yn cael eu gweithredu. *Mae Deddf y Môr* hefyd yn ymwneud â chadwraeth natur, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddynodi mesurau diogelu gofodol a fydd yn cyfrannu at rwydwaith cydlynol a chynrychiadol o ardaloedd morol gwarchodedig. Gelwir y rhain yn Barthau Cadwraeth Morol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac yn Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn yr Alban.[46]

O dan *Ddeddf y Môr*, nodir mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am gynlluniau morol ar gyfer rhanbarth glannau a rhanbarth alltraeth Cymru. Diffinnir rhanbarth y glannau gan *Ddeddf y Môr* fel terfyn y môr tiriogaethol (h.y. hyd at 12 milltir forol) wrth ymyl Cymru. Diffinnir y rhanbarth alltraeth fel yr ardal o Barth Cymru sy'n gorwedd y tu hwnt i derfynau'r môr tiriogaethol (h.y. o 12 milltir forol i derfyn pysgodfa Prydain).[47] Nodir hefyd mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol ar gyfer cadwraeth forol a dynodi Parthau Cadwraeth Morol

---

[42] *ibid*
[43] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** (Saesneg yn unig) (pennod 23), [fel ar 27 Ebrill 2012]
[44] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** (Saesneg yn unig) [fel ar 27 Ebrill 2012]
[45] Papur Ymchwil y Gwasanaeth Ymchwil 09/2345, ***Bil y Môr a Mynediad i'r Arfordir [Tŷ'r Arglwyddi],*** *(Saesneg yn unig)* Gorffennaf 2009 [fel ar 2 Mai 2012]
[46] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009: Nodiadau esboniadol,*** (Saesneg yn unig) [fel ar 22 Mai 2012]
[47] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*** (Saesneg yn unig) (pennod 23), [fel ar 27 Ebrill 2012]

yn rhanbarth glannau Cymru.  Fodd bynnag, nodir mai'r Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod priodol ar gyfer cadwraeth natur yn rhanbarth alltraeth Cymru. [48]

*Mae Deddf y Môr* hefyd yn cwmpasu; trwyddedu gweithgareddau morol, fel adeiladu a charthu; rheoli pysgota a physgodfeydd, gweithdrefnau gorfodi a mynediad i'r arfordir.

## *4.2. Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010*

Mae gofynion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol wedi cael eu trosi i gyfraith y DU o dan *Reoliadau'r Strategaeth Forol 2010* (o hyn ymlaen, y Rheoliadau).[49]  Mae'r Rheoliadau yn gosod dyletswydd statudol ar Ysgrifennydd Gwladol y DU i wneud asesiad o ddyfroedd morol ac yn pennu'r nodweddion a'r targedau ar gyfer Safon Amgylcheddol Da erbyn 15 Gorffennaf 2012. Mae hefyd yn ofynnol i Ysgrifennydd Gwladol y DU ddatblygu strategaeth forol sy'n mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau mewn cydweithrediad â'r gweinyddiaethau datganoledig.[50]

Mae'r Rheoliadau yn gosod rhwymedigaeth ar y gweinyddiaethau datganoledig i roi cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer:

- Rhaglenni monitro ar gyfer yr ardal forol ddatganoledig erbyn 15 Gorffennaf 2014;
- Rhaglen o fesurau ar gyfer yr ardal forol ddatganoledig erbyn 31 Rhagfyr 2015; ac
- Adolygu neu ddiweddaru rhaglenni monitro neu raglen o fesurau o'r fath.

Mae hefyd yn ofynnol i'r gweinyddiaethau datganoledig ddarparu gwybodaeth i gefnogi'r asesiad o ddyfroedd morol a datblygiad nodweddion a thargedau ar gyfer Statws Amgylcheddol Da.

Dywed Defra fod amcanion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn cyfateb â gweledigaeth y DU ar gyfer moroedd a bod y Rheoliadau a pholisïau fel *Deddf y Môr* , gyda'i gilydd, yn ffurfio pecyn o bolisïau a fydd yn galluogi gweledigaeth y DU i gael ei gyflawni[51].

## *4.3. Datganiad Polisi Morol*

Yn unol ag amserlen weithredu'r Gyfarwyddeb, paratowyd y *Datganiad Polisi Morol* ar y cyd gan weinyddiaethau'r DU ac fe'i mabwysiadwyd ym mis Mawrth 2011 ar ôl cyfnod ymgynghori o wyth wythnos.   Mae'r Datganiad yn nodi'r fframwaith ar gyfer cynllunio morol a pharatoi cynlluniau morol.  Ei nod yw sicrhau dull

---

[48] Papur Ymchwil y Gwasanaeth Ymchwil 09/2345, ***Bil y Môr a Mynediad i'r Arfordir [Tŷ'r Arglwyddi],*** (Saesneg yn unig) Gorffennaf 2009 [fel ar 2 Mai 2012]
[49] Defra, ***Marine Strategy Framework Directive,*** [fel ar 9 Mai 2012]
[50] ***Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010*** (Saesneg yn unig) SI 2010/1627
[51] Defra, ***Marine Strategy Framework Directive,*** [fel ar 9 Mai 2012]

gweithredu cyson ledled y DU.[52] Mae'n nodi bod Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ceisio cyflawni moroedd a chefnforoedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol o ran bioleg.

Yn ogystal â'r *Datganiad Polisi Morol*, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dull gweithredu ar gyfer cynllunio morol a chynhaliwyd ymgynghoriad arni rhwng 16 Chwefror 2011 ac 11 Mai 2011.[53] Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys map o nodweddion a gweithgareddau presennol ac arfaethedig mewn amgylcheddau morol, ynghyd â syniadau ar sut y bydd cynlluniau is-genedlaethol a chenedlaethol yn cael eu cysylltu, sut y gellir cyflawni cynllunio tir a morol mewn modd cydlynol, ac ar egwyddorion cydweithredu ac ymgysylltu ar draws ffiniau.

## *4.4. Asesiad cychwynnol o statws amgylcheddol a chynigion ar gyfer statws amgylcheddol da*

Ar 27 Mawrth 2012, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cyd ar *Asesiad cychwynnol y DU a chynigion ar gyfer statws amgylcheddol da.*[54] Cynhaliwyd yr ymgynghoriad tan 18 Mehefin 2012 ac roedd yn cynnwys nifer o agweddau ar y broses gychwynnol o weithredu'r Gyfarwyddeb.

Yr agwedd gyntaf ar yr ymgynghoriad yw'r asesiad drafft o gyflwr y moroedd, a luniwyd gan ystod o randdeiliaid, gan weithio o fewn fframwaith Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU. Mae'r asesiad yn seiliedig yn bennaf ar dystiolaeth a adolygwyd gan gymheiriaid o *Charting Progress 2*[55] ac adroddiadau bwydo cysylltiedig. Mae'n rhoi asesiad o statws amgylcheddol moroedd y DU a'r defnydd ohonynt gan sectorau gwahanol.[56] Ategwyd Charting Progress 2 gan Atlas Morol yr Alban[57] ac adroddiad 'State of the Seas' Gogledd Iwerddon.[58] Mae asesiad ychwanegol o gostau diraddio amgylchedd morol y DU wedi cael ei gynnal hefyd. Gwnaed hyn drwy gymharu gwerth buddion cymdeithasol os bydd statws amgylcheddol da yn cael ei gyflawni â'r statws a ddisgwylir heb y Gyfarwyddeb.

Mae ail ran yr ymgynghoriad yn ystyried cynigion ar gyfer nodweddion statws amgylcheddol da y DU, a ddatblygwyd gan lunwyr polisi mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol. Mae'r nodweddion a gynigir yn anelu at adlewyrchu diffiniad a disgrifyddion y Gyfarwyddeb o statws amgylcheddol da.

---

[52] Llywodraeth EM, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru ***Our Seas –a Shared Resource: High level Marine Objectives,*** 2009 [fel ar 27 Ebrill 2012]
[53] Welsh Government, ***Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Moroedd Cymru; ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru,*** 2011(Saesneg yn unig) [fel ar 9 Mai 2012]
[54] Llywodraeth EM, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad ynghylch Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol: Asesiad Cychwynnol ac argymhellion y DU ar gyfer Statws Amgylcheddol Da,*** (Saesneg yn unig) 27 Ebrill 2012 [fel ar 8 Mai 2012]
[55] Mae Charting Progress 2 yn adroddiad a adolygwyd gan gymheiriaid ar brif ganfyddiadau gwaith ymchwil a monitro morol y DU a gyhoeddwyd gan gymuned Monitro ac Asesu Morol y DU
[56] Defra, ***Charting Progress 2: The State of UK Seas,*** [fel ar 9 Mai 2012]
[57]Llywodraeth yr Alban ***Scotland's Marine Atlas: Information for The National Marine Plan,*** March 2010 [fel ar 25 Mai 2012]
[58] Adran Amgylchedd Gogledd Iwerddon, ***The State of the Seas Report,*** 2011 [fel ar 25 May 2012]

Mae'r nodweddion hefyd wedi cael eu datblygu gan ddefnyddio cyngor gan weithgor yr UE ar Statws Da.[59]Mae hyn yn nodi'r egwyddorion y dylai nodweddion eu hystyried, gan gynnwys: bod yn ansoddol yn bennaf, bod yn debyg i amcanion presennol yn genedlaethol, yn yr UE ac yn genedlaethol, bod yn dryloyw ynglŷn ag ansicrwydd, a chydgysylltu â'r Aelod-wladwriaethau eraill yn rhanbarth gogledd-ddwyrain yr Iwerydd. [60]

Roedd rhan olaf yr ymgynghoriad yn ystyried cynigion ar gyfer y dangosyddion a'r targedau mwy manwl o ran safon amgylcheddol da sy'n ofynnol ar gyfer y DU. Datblygwyd y rhain gyda chyngor gan Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas), Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ac ystod eang o arbenigwyr eraill, gan gynnwys y rhai sy'n rhan o Strategaeth Monitro ac Asesu Morol y DU. [61]

## *4.5. Ymgynghoriad ar barthau cadwraeth morol*

O dan *Ddeddf y Môr,* mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am gyfrannu at y rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig sy'n gydlynol o ran ecoleg sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb a chonfensiynau rhyngwladol.  Mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ranbarth y glannau yn unig.

Mae rhwydwaith presennol Cymru o ardaloedd morol gwarchodedig yn cynnwys ardaloedd cadwraeth arbennig, ardaloedd gwarchodaeth arbennig, safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig rhynglanwol a safleoedd Ramsar rhynglanwol sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â'r warchodfa natur forol ar Ynys Skomer. Mae safleoedd sy'n bodoli eisoes yn cwmpasu 75 y cant o arfordir Cymru a 36 y cant o foroedd tiriogaethol. [62]  Fodd bynnag, gan mai dim ond 17% o ardaloedd cadwraeth arbennig (morol a daearol) a ganfuwyd i fod mewn cyflwr ffafriol,[63] dywed Cyngor Cefn Gwlad Cymru y dylai fod pwyslais nawr ar sicrhau rheolaeth cadwraeth dda o ardaloedd morol gwarchodedig yng Nghymru.[64]

Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis ategu'r rhwydwaith presennol gyda nifer cyfyngedig o safleoedd gwarchodedig iawn. [65]  Mae canllawiau ar ddewis safleoedd yn nodi y dylai'r safleoedd hyn gael eu dewis am eu gallu i gyfrannu at wydnwch ac adfer ecosystemau a'r gallu i ddarparu nifer o wasanaethau ecosystemau.[66] Bydd safleoedd hefyd yn cael eu dewis oherwydd heterogenedd eu cynefin er

[59] Llywodraeth EM, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad ynghylch Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol: Asesiad Cychwynnol ac argymhellion y DU ar gyfer Statws Amgylcheddol Da,*** (Saesneg yn unig) 27 Ebrill 2012 [fel ar 8 Mai 2012]
[60] *ibid*
[61] *ibid*
[62] Llywodraeth Cymru, ***Parthau Cadwraeth Morol - Opsiynau safleoedd posibl ar gyfer dyfroedd Cymru***, (Saesneg yn unig) 19 Ebrill 2012 [fel ar 8 Mai 2012]
[63] Cyngor Cefn Gwlad Cymru, *Ardaloedd cadwraeth arbennig yng Nghymru, Cyflwr yr wybodaeth bresennol*, 2011 [fel ar 15 Mehefin 2012]
[64] Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ***Ardaloedd Morol Gwarchodedig*** , 2012 [fel ar 15 Mehefin]
[65] Llywodraeth Cymru, ***Prosiect Parthau Cadwrol Morol Cymru,*** (Saesneg yn unig) 011 [fel ar 23 Mai 2012]
[66] *ibid*

mwyn cynyddu nifer y cynefinoedd a ddiogelir i'r eithaf. [67] Bydd safleoedd yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n caniatáu iddynt weithredu mor naturiol â phosibl. Felly, bydd echdynnu neu ddyddodi adnoddau byw ac anfyw a phob gweithgaredd niweidiol arall yn cael eu gwahardd yn y parthau cadwraeth morol.

Yn wreiddiol, nodwyd nifer o safleoedd ffocws gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, yn seiliedig ar y canllawiau ecolegol. Cafodd y rhain eu mireinio wedyn gan grŵp cynghori technegol i lunio rhestr o safleoedd posibl. Yna, cafodd y safleoedd hyn eu mireinio ymhellach gan y grŵp cynghori technegol a grŵp llywio yng ngoleuni ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac ymarferol. [68] Yn seiliedig ar hyn, lluniwyd rhestr o 10 safle posibl, sef:

- Ynys Seiriol;
- Gogledd-ddwyrain y Fenai;
- Gogledd Penrhyn Llŷn;
- Ynys Enlli;
- Ynys Tudwal Fach a Llanbedrog;
- Aber Dwyfor;
- Môr Ceinewydd;
- De-orllewin Pen-caer;
- Skomer; a
- Dale.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch dewis tri i bedwar o'r safleoedd hyn i'w dynodi'n barthau cadwraeth morol rhwng 19 Ebrill a 31 Gorffennaf 2012.[69]

# 5. Gofynion yn y dyfodol

## *5.1. Dynodi parthau cadwraeth morol*

Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori ar y parthau cadwraeth morol wedi dod i ben, bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer llunio ail restr o safleoedd posibl. Bydd y rhestr newydd hon wedyn yn destun ymgynghoriad pellach a fydd yn cael ei ddefnyddio i wneud yr argymhelliad terfynol i Weinidogion. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidogion, bydd cyfnod ymgynghori ffurfiol rhwng naw a deuddeng wythnos yn dilyn hynny,[70] a bydd

---

[67] *ibid*
[68] Llywodraeth Cymru, ***Parthau Cadwraeth Morol - Opsiynau safleodd posibl ar gyfer dyfroedd Cymru***, (Saesneg yn unig) 19 Ebrill 2012 [fel ar 8 Mai 2012]
[69] *ibid*
[70] *ibid*

Llywodraeth Cymru'n anelu at ychwanegu'r parthau cadwraeth morol a ddynodir at y rhwydwaith presennol o ardaloedd gwarchodedig yn ystod 2014[71].

## 5.2. *Rhaglenni monitro*

Unwaith y bydd disgrifiadau a thargedau ar gyfer statws amgylcheddol da wedi cael eu sefydlu, mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau sefydlu rhaglenni monitro i sicrhau cynnydd. Mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu'r rhain erbyn 15 Gorffennaf 2014.

Mae dogfen ymgynghori Llywodraeth y DU ar ei asesiad cychwynnol a chynigion ar gyfer statws amgylcheddol da yn cynnig bod targedau a rhwydweithiau monitro ar gyfer gofynion statudol eraill yn cael eu defnyddio, lle bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn cynnwys OSPAR, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, y Gyfarwyddeb Adar a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.[72] Fodd bynnag, mae nifer o nodweddion a thargedau lle nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn monitro digon. Mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd gwaddod benthig, cynefinoedd cefnforol, poblogaethau pysgod cregyn masnachol, ewtroffigedd sy'n gysylltiedig â phlancton a halogion mewn pysgod cregyn mewn rhai rhanbarthau.[73] Yn achos rhanbarthau eraill, nid oes data llinell sylfaen digonol ar hyn o bryd i ddatblygu targedau. Mae'r disgrifyddion hyn yn cynnwys dosbarthu rhywogaethau nad ydynt yn gynhenid mewn ardaloedd nad ydynt yn peri pryder mawr, sbwriel ar y llawr moroedd, anifeiliaid yn llyncu sbwriel a sŵn amgylchynol. Yn achos y disgrifyddion hyn, bwriedir monitro'r sefyllfa er mwyn gwella dealltwriaeth, gyda'r nod o ddatblygu targedau yn 2018.[74]

## 5.3. *Datblygu cynlluniau i gyflawni statws amgylcheddol da*

Mae angen llunio camau gweithredu a fydd yn sicrhau y cyflawnir safon amgylcheddol da yn yr holl ddyfroedd morol erbyn 2015 a rhaid iddynt fod yn weithredol erbyn 2016. Rhaid cyflawni statws amgylcheddol da yn yr holl ddyfroedd morol erbyn 2020.

Dylai'r broses o nodi camau gweithredu fod yn seiliedig ar yr asesiadau cychwynnol a dylai gyfuno'r camau sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth arall y Gymuned Ewropeaidd. Dylai'r camau gweithredu hefyd ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy, yn benodol effeithiau cymdeithasol ac economaidd y mesurau a ragwelir.[75] Dylai pawb sydd â diddordeb gael cyfleoedd cynnar ac

---

[71] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***OAQ(4)01269(ESD),*** Christine Chapman at John Griffiths, Cofnod y Trafodion p7-8, 16 Mai 2012, [fel ar 31 Mai 2012]
[72] Llywodraeth EM, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad ynghylch Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol: Asesiad Cychwynnol ac argymhellion y DU ar gyfer Statws Amgylcheddol Da,*** (Saesneg yn unig) 27 Ebrill 2012 [fel ar 8 Mai 2012]
[73] *ibid*
[74] *ibid*
[75] ***OJL 164, 25.06.2008*** [fel ar 27 Ebrill 2012]

effeithiol i gymryd rhan yn y broses o lunio'r camau gweithredu, felly bydd angen sicrhau bod rhanddeiliaid yn cydweithredu'n effeithiol.

Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau gyflwyno adroddiad interim ar gynnydd y camau gweithredu dair blynedd ar ôl eu cyhoeddi. Bydd hefyd yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau adolygu'r asesiad o statws amgylcheddol, targedau amgylcheddol, rhaglenni monitro a'r rhaglen o fesurau bob 6 blynedd ar ôl 2020.[76]

Nodir y camau gweithredu y mae'n ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth eu cymryd, a'r dyddiadau ar eu cyfer isod.

**Tabl 1: Crynodeb o ofynion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn y dyfodol**[77]

| Dyddiad | Cam i'w gymryd |
|---|---|
| 15 Gorffennaf 2012 | Asesiad o statws amgylcheddol cychwynnol a sefydlu targedau a dangosyddion statws da |
| 2013 | Sefydlu rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig |
| 15 Gorffennaf 2014 | Sefydlu rhaglenni monitro ar gyfer asesu targedau yn barhaus |
| 2015 | Datblygu camau gweithredu a fydd yn cyflawni neu'n cynnal statws da |
| 2016 | Gweithredu'r camau a fydd yn cyflawni neu'n cynnal statws da |
| 2019 | Adrodd ar gynnydd y camau |
| 2020 | Cyflawni statws amgylcheddol da yn yr holl ddyfroedd morol |
| 2026 a phob 6 blynedd ar ôl hynny | Adolygu'r broses o asesu a phenderfynu ar statws da, y targedau amgylcheddol, y rhaglenni monitro a'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i gyflawni neu gynnal statws da |

## 6. Cynnydd o ran gweithredu - cymariaethau â gweddill y DU

*Mae Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010* yn trosi Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ar gyfer y DU gyfan. Oherwydd y gwahaniaethau ym mhwerau deddfu'r gweinyddiaethau datganoledig, mae *Deddf y Môr* yn berthnasol mewn ffyrdd gwahanol ar draws y DU. *Mae Deddf y Môr* yn nodi'r awdurdodau priodol ar

[76] *ibid*
[77] *ibid*

gyfer cynllunio morol a chadwraeth natur, sy'n cynnwys dynodi parthau cadwraeth morol, yn rhanbarthau'r DU (Tabl 2). Nid yw *Deddf y Môr* yn nodi awdurdod ar gyfer dyfroedd y glannau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Y rheswm am hyn yw y gall yr Alban a Gogledd Iwerddon wneud eu darpariaethau deddfwriaethol eu hunain ar gyfer cynllunio morol o dan eu pwerau datganoledig.

**Tabl 2: Yr awdurdodau priodol o dan *Ddeddf y Môr* ar gyfer cynllunio morol a chadwraeth natur.** [78]

| Rhanbarth morol | Awdurdod priodol ar gyfer cynlluniau morol | Awdurdod priodol ar gyfer cadwraeth natur |
|---|---|---|
| Glannau Lloegr | Ysgrifennydd Gwladol | Ysgrifennydd Gwladol |
| Rhanbarth Alltraeth Lloegr | Ysgrifennydd Gwladol | Ysgrifennydd Gwladol |
| Glannau Cymru | Gweinidogion Cymru | Gweinidogion Cymru |
| Rhanbarth Alltraeth Cymru | Gweinidogion Cymru | Ysgrifennydd Gwladol |
| Glannau Gogledd Iwerddon | Heb ei gynnwys yn y Ddeddf | Heb ei gynnwys yn y Ddeddf |
| Rhanbarth Alltraeth Gogledd Iwerddon | Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon | Ysgrifennydd Gwladol |
| Glannau'r Alban | Heb ei gynnwys yn y Ddeddf | Heb ei gynnwys yn y Ddeddf |
| Rhanbarth Alltraeth yr Alban | Gweinidogion yr Alban | Gweinidogion yr Alban |

Er gwaethaf y gwahaniaethau mewn cyfrifoldebau, gweithiodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gyda'i gilydd i gyhoeddi'r *Datganiad Polisi Morol*. Felly, mae hyn yn berthnasol i bob rhanbarth yn y DU. Gwnaeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig hefyd gyhoeddi ar y cyd yr asesiad statws amgylcheddol cychwynnol a chynigion ar gyfer statws amgylcheddol da. Fodd bynnag, mae'r gwledydd gwahanol wedi bod yn defnyddio dulliau gwahanol i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb, yn arbennig o ran creu a rheoli ardaloedd morol gwarchodedig.

---

[78] ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir*** (pennod 23), [fel ar 27 Ebrill 2012]; ***Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009: Nodiadau esboniadol*** [fel ar 22 Mai 2012] (Saesneg yn unig)

## *6.1. Lloegr a rhanbarth alltraeth Cymru a Gogledd Iwerddon*

Mae Defra wedi sefydlu'r prosiect parthau cadwraeth morol er mwyn rhoi argymhellion ar gyfer dynodi parthau cadwraeth morol yn rhanbarthau glannau ac alltraeth Lloegr, ynghyd â dynodi parthau cadwraeth morol yn nyfroedd alltraeth Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r project yn cael ei ddarparu ar y cyd gan Natural England a'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur.[79]

Yn wahanol i barthau cadwraeth morol Cymru, bydd lefel y cyfyngiad ar weithgareddau yn y parthau cadwraeth morol yn Lloegr yn amrywio rhwng safleoedd a bydd yn dibynnu ar nodweddion y safle, y gweithgareddau a wneir yno a'r amcanion cadwraeth a osodwyd ar gyfer y safle.[80] Mae Defra wedi nodi mai'r mesurau mwyaf priodol fydd y rhai sy'n sicrhau bod modd cyflawni amcanion cadwraeth wrth amharu cyn lleied â phosibl ar weithgareddau defnyddwyr.[81] Yn ogystal â pharthau cadwraeth morol, bydd ardaloedd cyfeirio hefyd yn cael eu dynodi. Ardaloedd gwarchodedig iawn yw'r rhain, lle na chaniateir echdynnu, dyddodi na gweithgareddau niweidiol eraill. [82] Maent yn cyfateb i'r parthau cadwraeth morol y mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgynghoriad arnynt ar hyn o bryd. Y gobaith yw y bydd y safleoedd hyn yn cyrraedd cyflwr sydd mor naturiol ag y bo modd, fel y gellir eu cymharu â chyflwr parthau eraill. [83]

O dan y prosiect parthau cadwraeth morol, sefydlwyd pedwar prosiect rhanbarthol, sy'n cynnwys moroedd y de-orllewin, Môr Iwerddon, Môr y Gogledd a moroedd y de-ddwyrain. Ar gyfer pob prosiect rhanbarthol, ffurfiwyd grŵp o randdeiliaid sy'n cynrychioli defnyddwyr a grwpiau sydd â diddordeb.[84] Bu'r grwpiau'n trafod lleoliad y parthau cadwraeth morol a'r gwaith rheoli y byddai ei angen ynddynt. Defnyddiwyd y dull cydweithredol hwn i gynyddu'r gefnogaeth ar gyfer lleoliad ac amcanion argymhellion y parthau cadwraeth morol gan yr holl randdeiliaid, lle bynnag y bo'n bosibl.[85]

Mae argymhellion y prosiect parthau cadwraeth morol bellach wedi cael eu cyflwyno. Mae'r rhain yn cynnwys 127 o barthau cadwraeth morol a 65 o safleoedd cyfeirio.[86] Roedd prosiect moroedd Iwerddon yn argymell wyth o barthau cadwraeth morol; mae'r rhain yn cynnwys tri pharth yn rhanbarth morol Cymru. [87] Mae'r cyntaf o'r rhain, a elwir yn barth cadwraeth morol rhif tri a argymhellir, 25 km i'r gogledd-orllewin o Ynys Môn ac yn cwmpasu 1,388 $km^2$.

---

[79] Defra, ***Guidance on selection and designation of Marine Conservation Zones (note1),*** Medi 2010 [fel ar 21 Mai 2012]
[80] Defra, ***Marine Conservation Zones: Management Measures,*** Ionawr 2012 [fel ar 21 Mai 2012]
[81] *ibid*
[82] *ibid*
[83] Irish Seas Conservations Zone Project, ***Final Recommendations Summary,*** Awst 2011 [fel ar 21 Mai 2012]
[84] Natural England, ***Marine Conservation Zones,*** [fel ar 21 Mai 2012]
[85] Natural England, ***Further Information on the MCZ project,*** [fel ar 21 Mai 2012]
[86] Natural England, ***Further Information on the MCZ project,*** [fel ar 21 Mai 2012]
[87] Irish Seas Conservations Zone Project, ***Final Recommendations Summary,*** Awst 2011 [fel ar 21 Mai 2012]

Mae'r ail, a elwir yn barth cadwraeth morol rhif pedwar a argymhellir, yn cwmpasu 761 $km^2$ ac fe'i lleolir yng nghanol sianel San Siôr oddi ar Ben Llŷn.  Mae'r trydydd argymhelliad, a elwir yn barth cadwraeth morol rhif pump a argymhellir, wedi'i leoli i'r gogledd o ganol y dyfnfor Celtaidd ac mae'n cwmpasu ardal o 656 $km^2$ i'r gogledd-ddwyrain o Benmaendewi.  Mae prosiect moroedd Iwerddon hefyd wedi nodi tair ardal cyfeirio yn nyfroedd Cymru.  Mae dwy o'r rhain o fewn parth cadwraeth morol rhif tri ac mae un ohonynt ym mharth rhif pedwar. Argymhellodd prosiect Finding Sanctuary 58 o barthau cadwraeth morol yn ne-orllewin y DU. [88] Mae un o'r rhain, sef Dwyrain y Dyfnfor Celtaidd, 84 km o arfordir Penfro ac yn cwmpasu 348 $km^2$.

Mae argymhellion terfynol y pedwar prosiect rhanbarthol wedi cael eu hadolygu'n annibynnol gan banel cynghori ar wyddoniaeth, a gyflwynodd ei gyngor ffurfiol i Lywodraeth y DU ar 30 Hydref 2011.[89]  Canfu adroddiad y panel nifer o ddiffygion, hepgoriadau ac ansicrwydd yn yr adroddiadau.[90]  Nododd yr adroddiad fod y broses o nodi safleoedd wedi dibynnu'n rhy drwm ar ystyriaethau economaidd-gymdeithasol, ac na roddwyd digon o sylw i fioamrywiaeth drwy gydol y broses benderfynu.  Oherwydd hyn, dywedwyd bod risg y byddai'r ardaloedd cyfeirio a'r parthau cadwraeth morol a argymhellwyd, ynghyd â'r amcanion cadwraeth, yn methu â darparu'r lefelau o warchodaeth sydd eu hangen i liniaru ar bwysau niweidiol a hwyluso'r broses o adennill cynefinoedd a rhywogaethau.[91]

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r panel cynghori ar wyddoniaeth, gwnaeth Richard Benyon, Gweinidog Amgylchedd Llywodraeth y DU, ddatganiad ar 15 Tachwedd 2011.[92] Roedd yn cydnabod pwysigrwydd y cydweithredu rhwng rhanddeiliaid ond dywedodd fod nifer o fylchau a chyfyngiadau yn y sail wyddonol ar gyfer yr argymhellion.  O ganlyniad, bydd Defra yn comisiynu gwaith ychwanegol ac adolygiad o'r argymhellion.[93] Bydd Natural England a'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur yn darparu asesiad o effaith y parthau cadwraeth morol a argymhellwyd a bydd yn rhoi cyngor ffurfiol erbyn mis Gorffennaf 2012. Rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar ddiwedd 2012.[94]

## *6.2. Gogledd Iwerddon*

Ar hyn o bryd, mae *Bil Morol drafft* Gogledd Iwerddon yng nghyfnod y pwyllgor yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon. [95] Yn debyg i *Ddeddf y Môr* y DU, mae'r Bil

---

[88] Finding Sanctuary, ***Final Recommendations, Summary Summer 2011***, Awst 2011 [fel ar 21 Mai 2012]
[89] Defra, ***Marine Conservation Zones,*** [fel ar 22 Mai 2012]
[90] Defra, ***Science Advisory Panel Assessment of the Marine Conservation Zone Regional Projects Final Recommendations,*** Tachwedd 2011 [fel ar 22 Mai 2012]
[91] *ibid*
[92] Llywodraeth y DU, Richard Benyon (Gweinidog yr Amgylchedd), ***Written Statement on Marine Conservation Zones***, 15 Tachwedd 2011 [fel ar 22 Mai 2012]
[93] *ibid*
[94] Defra, ***Marine Conservation Zones,*** [fel ar 22 Mai 2012]
[95] Cynulliad Gogledd Iwerddon, ***The Marine Bill,*** [fel ar 22 Mai 2012]

drafft yn anelu at osod fframwaith newydd ar gyfer rheoli morol yn rhanbarth glannau Gogledd Iwerddon. O dan y *Bil Morol Drafft,* bydd Adran Amgylchedd Gogledd Iwerddon yn gallu dynodi parthau cadwraeth morol a pharatoi cynlluniau morol ar gyfer holl ranbarth y glannau neu ran ohono. [96]

## *6.3. Yr Alban*

Daeth *Deddf Morol (yr Alban) 2010* i rym ar 10 Mawrth 2010, ac mae'n berthnasol i ranbarth y glannau yn nyfroedd yr Alban.[97] Yn debyg i *Ddeddf y Môr* y DU, mae *Deddf Morol (yr Alban)* yn anelu at ddiogelu dyfodol y moroedd, gan gyflwyno fframwaith sy'n anelu at gydbwyso'r galwadau ar foroedd yr Alban. Mae hefyd yn cyflwyno mesurau i hybu buddsoddiad economaidd mewn meysydd fel ynni adnewyddadwy.[98] Cyn cyflwyno *Deddf Morol (yr Alban)*, cynhaliwyd ymgynghoriad er mwyn ymgysylltu â phartion â diddordeb o ran llunio'r Ddeddf. [99] Yn ogystal, cynhaliwyd asesiad amgylcheddol strategol o'r Bil [100], ynghyd ag asesiad effaith rheoleiddiol.[101]

*Mae Deddf Morol (yr Alban)* yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu tri math o ardaloedd morol gwarchodedig ar gyfer rhanbarth y glannau, sef:

- Ardaloedd cadwraeth natur i warchod bioamrywiaeth a geoamrywiaeth;
- Ardaloedd arddangos ac ymchwil i ddangos dulliau newydd o reoli adnoddau morol yn gynaliadwy ac ymchwilio iddynt; ac
- Ardaloedd hanesyddol i ddiogelu asedau hanesyddol o bwys cenedlaethol (e.e. llongddrylliadau hanesyddol).

*Mae Deddf y Môr* yn rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion yr Alban yng nghyswllt cynllunio morol a mesurau cadwraeth yn rhanbarth alltraeth yr Alban. Mae cytundeb ar y cyd rhwng Gweinidogion yr Alban a'r DU yn nodi cyfrifoldebau'r ddwy ochr a sut y bydd cynllunio morol yn cael ei wneud mewn ffordd gydlynol a chydgysylltiedig.[102]

Bydd yr ardaloedd morol gwarchodedig, ardaloedd cadwraeth arbennig, ardaloedd gwarchodaeth arbennig a safleoedd Ramsar sydd ar y glannau, ynghyd â'r ardaloedd morol gwarchodedig alltraeth sy'n ofynnol o dan *Y Ddeddf Morol*, yn cyfrannu at y rhwydwaith cydlynol o ardaloedd morol gwarchodedig sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb.

---

[96] Adran Amgylchedd Gogledd Iwerddon, ***Northern Ireland Marine Bill,*** [fel ar 22 Mai 2012]
[97] ***Marine (Scotland) Act,*** [fel ar 22 Mai 2012]
[98] Llywodraeth yr Alban, ***Marine (Scotland) Act),*** 2012 [fel ar 22 Mai 2012]
[99] Llywodraeth yr Alban, ***Consultation,*** 2012 [fel ar 22 Mai 2012]
[100] Llywodraeth yr Alban, ***Scottish Marine Bill Strategic Environmental Assessment (SEA): Environmental Report (ER),*** Rhagfyr 2008 [fel ar 22 Mai 2012]
[101] Llywodraeth yr Alban, ***The Marine (Scotland) Bill: Final Regulatory Impact Assessment,*** Mai 2009 [fel ar 22 Mai 2012]
[102] Llywodraeth yr Alban ***UK Agreement***, 2009 [fel ar 24 Mai 2012]

Sefydlwyd prosiect ardaloedd morol gwarchodedig yr Alban i roi cyngor i Weinidogion yr Alban ynghylch y broses o ddewis yr ardaloedd. Caiff y prosiect ei arwain gan Marine Scotland, sef cyfarwyddiaeth Llywodraeth yr Alban sy'n gyfrifol am reoli moroedd yr Alban, ac sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth â Scottish Natural Heritage a'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur.[103] Bydd y broses o ddewis safleoedd yn seiliedig ar wyddoniaeth, gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarperir i sicrhau bod rhwydwaith ecolegol cydlynol yn cael ei sefydlu. Yn ogystal, rhoddwyd caniatâd i drydydd partïon wneud awgrymiadau ar gyfer ardaloedd morol gwarchodedig, ardaloedd cadwraeth natur ac ardaloedd arddangos ac ymchwil.[104]

Mae canllawiau ar gyfer datblygu'r rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig yn nodi y dylai'r amcanion cadwraeth a'r broses o reoli gweithgareddau ar gyfer pob safle gael ei benderfynu fesul achos unigol. Bydd rhagdybiaeth ddiofyn o ran defnydd gan bob defnyddiwr morol ym mhob ardal forol warchodedig. Bydd gweithgaredd yn cael ei rheoli yn yr ardaloedd morol gwarchodedig dim ond os yw'n hysbys y bydd gweithgaredd yn niweidio'r nodweddion a ddiogelir, neu os yw'n debygol o wneud hynny, ac felly'n peryglu cyfraniad y safle i'r rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig. [105]

Mae proses pum cam ar gyfer dewis safleoedd wedi cael ei nodi. Y camau yw:

- Nodi lleoliadau chwilio yn seiliedig ar bresenoldeb nodweddion chwilio ardaloedd morol gwarchodedig;
- Blaenoriaethu lleoliadau chwilio yn ôl nodweddion chwilio'r ardal forol warchodedig a nodweddion eraill a nodir.
- Asesu maint y lleoliad chwilio mewn perthynas â nodweddion chwilio'r ardal forol warchodedig;
- Asesiad o'r gallu i reoli nodweddion yn effeithiol mewn lleoliad chwilio fel rhan o ardal forol warchodedig cadwraeth natur; a
- Blaenoriaethu ardaloedd posibl yn ôl eu cyfraniad i rwydwaith yr Alban o ardaloedd morol gwarchodedig;

Cafodd y nodweddion chwilio sydd i'w defnyddio wrth nodi ardaloedd morol gwarchodedig cadwraeth natur eu datblygu gan SNH a'r Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur. Mae'r rhain yn seiliedig ar bedwar categori, sef:

- Cynefinoedd gwely'r môr e.e. gwelyau cregyn gleision a chregyn dilyw;
- Rhywogaethau symudedd isel neu gyfyngedig e.e. anemoni môr sy'n tyrchu;

---

[103] *ibid*
[104] Marine Scotland, ***Marine Protected Areas in Scotland's Seas Guidelines on the selection of MPAs and development of the MPA network,*** 2011 [fel ar 22 Mai 2012]
[105] *ibid*

- Rhywogaethau symudol e.e. gwylogod du a heulforgwn; a
- Nodwedd o bwysigrwydd swyddogaethol ar raddfa fawr e.e. llethrau cyfandirol a mowntiau môr.[106]

Ers mis Mawrth 2011, cynhaliwyd nifer o weithdai i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y broses o ddewis ardaloedd morol gwarchodedig cadwraeth natur. [107] Bu'r gweithdai hyn yn adolygu data ynghylch nodweddion chwilio a nodwyd y lleoliadau mwyaf naturiol / sydd wedi'u difrodi lleiaf[108]. Yna aeth y gweithdai ymlaen i archwilio cyfraniad y lleoliadau hyn a safleoedd gwarchodedig presennol i'r rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig a sut y gellid cynyddu eu gwerth ecolegol. Trafodwyd nodweddion chwilio nad ydynt yn cael eu cwmpasu'n llawn gan safleodd diogelu presennol. [109] Cyhoeddwyd datganiadau ar gyfer pob un o'r nodweddion chwilio blaenoriaeth, ynghyd â lleoliadau arfaethedig i ymdrin â hwy. Awgrymwyd 15 o ardaloedd morol gwarchodedig gyda 12 argymhelliad arall ar gyfer asesiad pellach.[110] Yn y gweithdy nesaf, cyflwynwyd matrics sy'n dangos y rhyngweithio rhwng pwysau a nodweddion chwilio. Mae'r matrics hwn, ynghyd â mewnbwn gan randdeiliaid, yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ddatblygu pecyn cymorth rheoli ar gyfer ardaloedd morol gwarchodedig. Bydd y pecyn cymorth yn cael ei ddefnyddio i gynnig mesurau rheoli ar gyfer pob lleoliad arfaethedig.[111] Y gobaith yw y bydd y dull hwn yn rhoi eglurder i randdeiliaid ynghylch ystyr dynodi ac yn caniatáu asesiadau economaidd-gymdeithasol mwy manwl.

Cynhelir pumed gweithdy ym mis Mehefin 2012. Disgwylir y bydd yr argymhellion terfynol ar gyfer yr ardaloedd morol gwarchodedig yn cael eu cyflwyno i Senedd yr Alban erbyn diwedd 2012. Yna, bydd Gweinidogion yr Alban yn penderfynu pa opsiynau y dylid ymgynghori arnynt yn ffurfiol. Bydd dogfennau cynigion safle ac asesiadau effaith yn cael eu cwblhau ac yn destun ymgynghori yn 2013.[112]

---

[106] *ibid*
[107] Llywodraeth yr Alban, ***Stakeholder Engagement,*** 2012 [fel ar 23 Mai 2012]
[108] *ibid*
[109] Llywodraeth yr Alban ***Identification of additional MPA search locations and discussion of search feature sensitivities: A guide to the 4th national MPA stakeholder workshop,*** 2012 [fel ar 24 Mai 2012]
[110] *ibid*
[111] *ibid*
[112] Scottish Natural Heritage ***Marine Protected Areas – Frequently Asked Questions,*** [fel ar 24 Mai 2012]